Cyngor Abertawe
Swansea Council

**Choose your preferred language**
**Dewiswch eich dewis iaith**

- ◯ English
- ◯ Cymraeg

Os oes angen yr arolwg hwn arnoch mewn fformat arall e.e. print bras, e-bostiwch rhian.millar@abertawe.gov.uk neu ffoniwch 01792 636732

**Ydych chi'n ...**

- ◯ Aelod o'r cyhoedd
- ◯ Gweithio i'r cyngor
- ◯ Aelod etholedig
- ◯ Sefydliad trydydd sector/sefydliad partner (rhowch fanylion)
- ◯ Sefydliad sector preifat/sefydliad partner (rhowch fanylion)

Bydd eich sylwadau yn aros yn ddienw a gellir eu cyhoeddi pan fyddwn yn adrodd am ganlyniadau'r ymgynghoriad hwn neu o ganlyniad i gais Rhyddid Gwybodaeth. Bydd sylwadau yr ystyrir eu bod yn ddifrïol, yn hiliol, yn enllibus neu'n sarhaus yn cael eu dileu cyn i ni ystyried yr ymatebion i'r arolwg.

Bydd y cynigion a amlinellir yn yr arolwg hwn o ddiddordeb i'r rheini sy'n byw ac yn gweithio yn Abertawe. Dywedwch wrthym ym mha ardal yn Abertawe yr ydych yn byw neu'n gweithio:

**Côd Post:**

## Her ein cyllideb - mynnwch lais

Bob blwyddyn mae Cyngor Abertawe'n cytuno ar sut a ble y bydd yn gwario'i gyllideb ar wasanaethau sy'n effeithio arnoch chi. I'n helpu i wneud hyn, rydym yn gofyn cwestiynau i'r cyhoedd yn seiliedig ar eich blaenoriaethau a sut yr hoffech chi i ni reoli ein heriau ariannol.

Mae'r argyfwng costau byw wedi cyflwyno heriau digynsail i aelwydydd ledled y wlad. Effeithiwyd ar y Cyngor mewn ffyrdd tebyg, fel y biliau ynni uwch sy'n costio tua £5 miliwn yn fwy na chyn yr argyfwng. Ar ben hyn, mae chwyddiant wedi parhau'n uchel ar gyfer tâl, sy'n golygu bod costau popeth rydym yn ei brynu ac yn ei ddefnyddio wedi cynyddu. Ar yr un pryd cytunwyd yn genedlaethol ar ddyfarniadau cyflog cenedlaethol a chyfraniadau yswiriant cenedlaethol heb fod digon o arian yn cael ei ddarparu gan lywodraethau Cymru a'r DU i dalu amdanynt.

Mae hyn yn golygu y bydd yn rhaid i ni adolygu'r ffordd rydym yn gwneud pethau i barhau i fod yn fwy effeithlon a lleihau ein costau ymhellach fyth.


Er yr heriau digynsail hyn, mae'r Cyngor yma i bobl Abertawe wrth ddarparu cymorth ariannol a channoedd o wasanaethau ar gyfer preswylwyr a busnesau.

Flwyddyn nesaf, byddwn yn buddsoddi cannoedd ar filiynau o bunnoedd mewn gwasanaethau fel ysgolion, gofal cymdeithasol ar gyfer plant ac oedolion, casgliadau gwastraff, ffyrdd, parciau a thraethau, ac yn cefnogi'r rheini sy’n fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau.

Daw ein cyllid oddi wrth y Llywodraeth a thua £155m (26%) drwy dreth y cyngor, ond nid yw hyn hyd yn oed yn talu am gost ein gwasanaethau cymdeithasol, heb sôn am yr holl wasanaethau eraill rydym yn eu darparu. Nid yw cynyddu treth y cyngor yn opsiwn a byddwn bob amser yn cydbwyso cynnal a gwella gwasanaethau â lefel o dreth y cyngor sy'n fforddiadwy.

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn rhoi'r cyfle i chi fynegi eich barn ynghylch rhai o'r penderfyniadau cyllidebol y mae'n rhaid i ni eu gwneud i fantoli ein cyllideb y flwyddyn nesaf.

Mae eich barn yn bwysig iawn i ni a chaiff ei hystyried wrth i'r Cyngor wneud ei benderfyniadau ynghylch gwariant ac arbedion ym mis Mawrth.




Mae'r Cyngor yn codi tua £155 miliwn drwy dreth y cyngor bob blwyddyn, ond nid yw hyn yn ddigon i dalu am gostau ein gwasanaethau cymdeithasol, heb sôn am yr holl wasanaethau eraill a ddarperir gennym. Mae cost gyffredinol gwasanaethau'r Cyngor yn golygu nad yw cynyddu treth y cyngor yn unig yn opsiwn, a byddwn bob amser yn pwyso a mesur cynnal a gwella'r ddarpariaeth gwasanaethau gyda lefel o dreth y cyngor sy'n fforddiadwy.

Felly, mae'n rhaid i ni gymryd camau eraill. Dyna pam rydym am siarad â chi nawr a chael eich barn am sut y gallwn gyflwyno gwasanaethau yn y dyfodol.

Felly mae'n rhaid i ni gymryd camau eraill. Dyna pam rydyn ni eisiau siarad â chi nawr a chael eich barn ar sut y gallwn ni ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol.


## Y gwasanaethau rydym yn eu darparu a'u cost

Mae'r Cyngor yn darparu gwasanaethau i fwy na 245,000 o breswylwyr, yn ogystal â datblygu'r economi leol i ddiogelu a chreu swyddi da. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys addysg ac ysgolion, gwasanaethau gofal i'r henoed a'r anabl, gwasanaethau gofal a diogelu i blant, casglu gwastraff ac ailgylchu, cynnal a chadw priffyrdd, cludiant cyhoeddus â chymhorthdal, hamdden ac adloniant, diogelu'r amgylchedd, trwyddedu a chynllunio.

Gallwch ddod o hyd i fanylion ynghylch y gwasanaethau niferus rydym yn eu darparu drwy'r ddolen ganlynol: - https://www.abertawe.gov.uk/preswylwyr

Mae gan y Cyngor tua £640m i'w wario gan Lywodraeth Cymru ac o dreth y cyngor. Rydym yn codi rhagor o arian o grantiau ac incwm.

Ar gyfartaledd rydym yn gwario dros £4,000 ar bob aelwyd yn Abertawe.




## Ariannu gwasanaethau yn y dyfodol

Oherwydd maint yr her gyllidebol sy'n wynebu'r Cyngor dros y blynyddoedd nesaf, efallai na fyddwn yn gallu darparu'r un nifer neu lefel o wasanaethau yn y dyfodol.

Rydym am glywed eich barn am sut gallwn ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol:

**A fyddai'n well gennych i'r Cyngor ddarparu gwasanaethau mewn ffordd wahanol yn hytrach na'u colli?**

- ◯ Byddai
- ◯ Na fyddai

**Os byddai, nodwch yn y blwch isod sut hoffech chi i wasanaethau gael eu darparu'n wahanol yn y dyfodol:**

Mae'r tabl isod yn dangos Treth Gyngor Band D y Sir ar gyfartaledd. Ar hyn o bryd mae Abertawe yn gorwedd ar ganol y tabl.

**Table 1: Breakdown of band D and average per dwelling council tax in Wales, 2024-25**

£

| | Average band D | Of which: County council element | Community council element (a) | Police authority element | Average per dwelling |
|---|---|---|---|---|---|
| Isle of Anglesey | 1,982 | 1,572 | 60 | 350 | 1,909 |
| Gwynedd | 2,161 | 1,755 | 56 | 350 | 2,095 |
| Conwy | 2,136 | 1,733 | 53 | 350 | 2,000 |
| Denbighshire | 2,090 | 1,679 | 62 | 350 | 1,937 |
| Flintshire | 2,062 | 1,658 | 55 | 350 | 1,970 |
| Wrexham | 2,014 | 1,598 | 66 | 350 | 1,833 |
| Powys | 2,054 | 1,639 | 83 | 332 | 2,056 |
| Ceredigion | 2,104 | 1,726 | 46 | 332 | 2,098 |
| Pembrokeshire | 1,885 | 1,511 | 43 | 332 | 1,990 |
| Carmarthenshire | 2,048 | 1,603 | 113 | 332 | 1,796 |
| Swansea | 2,018 | 1,642 | 24 | 353 | 1,739 |
| Neath Port Talbot | 2,281 | 1,872 | 57 | 353 | 1,722 |
| Bridgend | 2,245 | 1,834 | 57 | 353 | 1,923 |
| Vale of Glamorgan | 1,973 | 1,563 | 58 | 353 | 2,076 |
| Cardiff | 1,827 | 1,471 | 4 | 353 | 1,840 |
| Rhondda Cynon Taf | 2,082 | 1,695 | 35 | 353 | 1,547 |
| Merthyr Tydfil | 2,329 | 1,975 | 2 | 353 | 1,648 |
| Caerphilly | 1,813 | 1,446 | 17 | 350 | 1,412 |
| Blaenau Gwent | 2,303 | 1,920 | 34 | 350 | 1,498 |
| Torfaen | 1,952 | 1,551 | 52 | 350 | 1,587 |
| Monmouthshire | 2,111 | 1,687 | 74 | 350 | 2,379 |
| Newport | 1,856 | 1,497 | 9 | 350 | 1,649 |
| Wales average | 2,024 | 1,631 | 46 | 348 | 1,830 |

(a) The average community council element across the county.

Telir treth y cyngor gan aelwydydd i'r Cyngor i helpu i ariannu gwasanaethau hanfodol yn y gymuned. Mae'r swm rydych yn ei dalu'n dibynnu ar werth eich cartref a'r band treth y mae'n perthyn iddo. Rydym yn defnyddio'r arian hwn i ddarparu gwasanaethau rydym i gyd yn dibynnu arnynt, fel gofal ar gyfer pobl hŷn, cefnogaeth i blant a theuluoedd, casglu sbwriel, cynnal ffyrdd, helpu pobl sy'n ddigartref a rhedeg ysgolion, gan gynnwys cefnogaeth i blant ag anghenion dysgu ychwanegol. Gyda chostau cynyddol a'r ffaith bod angen y gwasanaethau hyn ar fwy o bobl, mae'r Cyngor dan bwysau i wneud yn siŵr bod digon o arian i barhau i gynnal gwasanaethau wrth gadw treth y cyngor mor deg â phosib i bawb.

**Beth mae hyn yn ei olygu:** I'r rhan fwyaf o aelwydydd, byddai hyn yn golygu cost fisol ychwanegol fach, yn dibynnu ar werth eich cartref. Er enghraifft, gallai'r gost i aelwyd Band B gynyddu rhwng £5 a £7 y mis.

**Sut byddwn yn llwyddo i wneud hyn:** Bydd y Cyngor yn canolbwyntio ar fod yn effeithlon, lleihau gwastraff a rheoli adnoddau'n ofalus; byddwn yn adolygu'n rheolaidd sut caiff refeniw treth y cyngor ei wario ac yn adrodd amdano; a byddwn yn gweithio gyda chymunedau lleol a phartneriaid i fynd i'r afael â'r anghenion mwyaf difrifol.

**A fyddech chi'n barod i dderbyn cynnydd uwch yn y Dreth Gyngor i ariannu gwasanaethau yn hytrach na'u colli?**

- ◯ Byddwn
- ◯ Na fyddwn

**Pe byddech, pa lefel o gynnydd yn y Dreth Gyngor byddech chi'n ei derbyn?**

- ◯ Islaw cynnydd yn lefel chwyddiant
- ◯ Cynnydd yn unol â lefelau chwyddiant
- ◯ Cynnydd yn uwch na lefel chwyddiant

**Pe bai arian ar gael, ym mha feysydd yr hoffech chi weld y Cyngor yn buddsoddi?**

- ☐ Gofalu am bobl hŷn ac oedolion anabl
- ☐ Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i bobl am y cyngor
- ☐ Cynnwys pobl ac ymgynghori â nhw ynghylch yr hyn y mae'r cyngor yn ei wneud
- ☐ Hyrwyddo a chefnogi cydraddoldeb ac amrywiaeth
- ☐ Gwella gwefan y cyngor
- ☐ Hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg
- ☐ Gwneud y cyngor yn fwy masnachol
- ☐ Cadw plant yn ddiogel
- ☐ Gwelliannau i ysgolion
- ☐ Anghenion Dysgu Ychwanegol
- ☐ Gwasanaethau Addysg
- ☐ Dysgu Oedolion
- ☐ Atgyweiriadau Stryd/Ffyrdd
- ☐ Rheoli traffig
- ☐ Parcio ceir
- ☐ Tai cyngor
- ☐ Gwelliannau i adeiladau'r cyngor
- ☐ Tai a Digartrefedd
- ☐ Trechu Tlodi
- ☐ Llyfrgelloedd
- ☐ Canolfannau cymunedol
- ☐ Gwasanaethau ieuenctid/chwarae i blant
- ☐ Datblygu canol dinas Abertawe
- ☐ Casglu sbwriel
- ☐ Gwasanaethau ailgylchu
- ☐ Glanhau strydoedd
- ☐ Parciau a Mannau gwyrdd
- ☐ Chwaraeon, Hamdden a Chyfleusterau Diwylliannol
- ☐ Gwasanaethau Cludiant/Gorsaf Fysus
- ☐ Arall (nodwch)

## Meysydd parcio'r Cyngor

Ar gyfer y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r Cyngor wedi bod yn gweithredu tariffau parcio ceir gostyngol ar gyfer nifer o feysydd parcio yng nghanol y ddinas. O ganlyniad, mae gennym rai o'r tariffau canol dinas isaf yn y DU. Mae hyn yn helpu i gynyddu nifer yr ymwelwyr sydd yn ei dro wedi cefnogi busnesau, gweithwyr a phreswylwyr lleol yn ystod cyfnod anodd lle mae pwysau costau byw wedi bod yn sylweddol.

I adlewyrchu'r pwysau parhaus ar breswylwyr, gweithwyr a busnesau lleol, mae'r Cyngor yn cynnig cadw'r tariffau gostyngol yn barhaol er mwyn parhau i gefnogi canol y ddinas.

**Beth mae hyn yn ei olygu:** Mae hyn yn golygu y byddwn yn cadw'r cymorth gostyngol ar gyfer nifer o'n meysydd parcio yng nghanol y ddinas yn barhaol. Byddai'r cyfraddau tymhorol gostyngol ar gyfer y blaendraeth hefyd yn aros fel y maent.

**Sut byddwn yn llwyddo i wneud hyn:** Bydd y Cyngor yn sicrhau bod ffïoedd yn parhau i fod yn gymedrol ac yn deg, a bydd mesurau ychwanegol i gynorthwyo deiliaid bathodyn glas a chynnal tryloywder prisio.

**Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â pharhau â'n cynnig parcio am bris gostyngol ym meysydd parcio canol y ddinas?**

- ○ Cytuno'n gryf
- ○ Tueddu i gytuno
- ○ Tueddu i anghytuno
- ○ Anghytuno'n gryf

**Os oes unrhyw sylwadau yr hoffech chi eu gwneud am barhau â'n cynnig parcio am bris gostyngol ym meysydd parcio canol y ddinas, nodwch nhw yma:**

## Datblygu strategaeth ar gyfer parcio carafannau a chartrefi modur

Mae'r Cyngor am archwilio ffyrdd newydd o gynhyrchu incwm fel y gallwn fuddsoddi mwy yn y gwasanaethau rydym yn eu darparu. Fel rhan o gyllideb eleni, byddwn yn datblygu strategaeth a fydd yn edrych ar ddefnyddio rhai o'n meysydd parcio a rhywfaint o'n tir ar gyfer parcio carafanau a chartrefi modur. Ni chytunwyd ar y lleoliadau eto, byddwn yn ymgysylltu â phobl ynghylch syniadau fel rhan o'r gwaith i ddatblygu'r strategaeth.

**Beth mae hyn yn ei olygu**: Cyfleoedd newydd ar gyfer parcio carafanau a chartrefi modur yn Abertawe.

**Sut byddwn yn llwyddo i wneud hyn:** Byddwn yn archwilio cyfleoedd ac yn datblygu ein hymagwedd, gan ystyried barn preswylwyr wrth i ni ddatblygu ein strategaeth.

**Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â bwriad y Cyngor i ddatblygu strategaeth ar gyfer parcio carafannau a chartrefi modur er mwyn cynyddu incwm?**

- ○ Cytuno'n gryf
- ○ Tueddu i gytuno
- ○ Tueddu i anghytuno
- ○ Anghytuno'n gryf

**Os oes unrhyw sylwadau yr hoffech chi eu gwneud am ddatblygu strategaeth parcio carafannau a chartrefi modur, nodwch nhw yma:**

## Rheoli Gwastraff

Mae'r Cyngor yn gweithredu nifer o wasanaethau rheoli gwastraff a sbwriel i gadw'r sir yn lân.

Mae preswylwyr Abertawe, gyda chymorth y Cyngor, wedi cynyddu swm y gwastraff sy'n cael ei ailgylchu'n sylweddol. Ar hyn o bryd mae gan Abertawe un o'r lefelau ailgylchu gorau ar gyfer unrhyw ddinas yn y byd.

Rydym am wneud rhai newidiadau pellach i gasgliadau gwastraff i helpu i ehangu faint o wastraff cartref sy'n gallu cael ei ailgylchu a lleihau faint o ddeunyddiau sy'n gorfod mynd i mewn i sachau du fel gwastraff.

**Beth mae hyn yn ei olygu:** Byddwn yn darparu cynwysyddion ailgylchu ailddefnyddiadwy newydd i bob aelwyd (am ddim), a fyddai'n rhoi terfyn ar yr angen i aelwydydd ddefnyddio 10 miliwn o sachau plastig untro bob blwyddyn. Byddwn hefyd yn ehangu'r mathau o eitemau y gellir eu hailgylchu yn hytrach na'u rhoi mewn sachau du.

**Yr hyn na fyddai'n newid:**

- Byddai'r casgliad bwyd wythnosol yn parhau
- Byddai ailgylchu a sachau du yn cael eu casglu bob pythefnos (fel nawr)
- Byddai gwastraff gardd yn cael ei gasglu bob pythefnos o ganol mis Mawrth i ganol mis Rhagfyr (yn seiliedig ar y prawf presennol)
- Byddai gwasanaethau cymorth casgliadau arbennig yn parhau fel y maent yn awr

**Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n newidiadau arfaethedig i'n casgliadau gwastraff ac ailgylchu?**

○ Cytuno'n gryf ○ Tueddu i gytuno ○ Tueddu i anghytuno ○ Anghytuno'n gryf

**Os oes unrhyw sylwadau yr hoffech chi eu gwneud am ein newidiadau arfaethedig i'n casgliadau ailgylchu a gwastraff, nodwch nhw yma:**

## Arbed arian ar staffio

Mae'r Cyngor yn ymroddedig i ddarparu gwasanaethau o safon wrth wneud y defnydd gorau o adnoddau a sicrhau bod trethdalwyr yn cael y gwerth gorau am arian. I wneud hyn, rydym yn adolygu ein strwythur staffio i sicrhau bod rolau'n canolbwyntio ar flaenoriaethau a galw. Mae hyn yn cynnwys lleihau niferoedd staff lle bo modd drwy swyddi gwag naturiol, cyfuno rolau a defnyddio technoleg i hybu cynhyrchedd a chadw costau i lawr. Gallai'r newidiadau hyn gael effeithiau cynyddol, gan gynnwys:

- Amserau aros hwy ar gyfer rhai gwasanaethau
- Llai o wasanaethau nad ydynt yn hanfodol ar gael
- Pwysau ychwanegol ar y staff sydd ar ôl, a allai effeithio ar ansawdd y gwasanaeth

Byddwn yn gwneud popeth y gallwn i leihau'r effaith drwy ganolbwyntio ar wasanaethau hanfodol, ail-leoli adnoddau lle mae eu hangen mwyaf a defnyddio awtomatiaeth i sicrhau bod pethau'n rhedeg yn hwylus. Mae'r newidiadau hyn yn hanfodol ar gyfer arbed arian, aros yn ariannol gynaliadwy a sicrhau bod preswylwyr yn cael y gwerth gorau o gyllid cyhoeddus.

**Y Cynnig:** Lleihau niferoedd staff drwy swyddi gwag naturiol, cyfuno rolau ac awtomatiaeth wrth ddiogelu gwasanaethau hanfodol.

**Beth mae hyn yn ei olygu:** Efallai bydd rhai gwasanaethau'n cymryd yn hwy, byddant ar gael yn llai aml neu bydd llai o allu ganddynt i gynllunio ar gyfer y tymor hir.

**Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â lleihau niferoedd staff i arbed arian wrth ddiogelu gwasanaethau hanfodol?**

○ Cytuno'n gryf ○ Tueddu i gytuno ○ Tueddu i anghytuno ○ Anghytuno'n gryf

**Os oes unrhyw sylwadau yr hoffech chi eu gwneud am leihau niferoedd staff wrth ddiogelu gwasanaethau hanfodol, nodwch nhw yma:**

## Y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd

Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb cyfreithiol i gefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd yn ein cymunedau, gan sicrhau bod pob plentyn yn cael y cyfle i dyfu i fyny mewn amgylchedd diogel a meithringar. Mae ein gwasanaethau'n chwarae rôl hanfodol gan gynnwys diogelu plant sy'n agored i niwed, helpu teuluoedd drwy amserau anodd, dod o hyd i gartrefi maeth neu fabwysiadol cariadus, cefnogi'r rheini sy'n gadael gofal a gweithio gyda theuluoedd i atal problemau rhag gwaethygu.

**Beth mae hyn yn ei olygu:** Bydd angen lleihau dibyniaeth ar leoliadau maeth annibynnol a phreswyl allanol, costus, a chanolbwyntio ar gynyddu darpariaeth fewnol y Cyngor o ran y gwasanaethau hyn. Y nod yw blaenoriaethu ymyrryd yn gynnar ac atal, gan helpu teuluoedd i ffynnu.

**Sut byddwn yn llwyddo i wneud hyn:** Byddwn yn blaenoriaethu gwasanaethau i blant a theuluoedd â'r anghenion mwyaf, yn buddsoddi mewn cefnogaeth gymunedol a mewnol ac yn gweithio'n agos â gofalwyr, darparwyr gwasanaethau a theuluoedd i sicrhau bod unrhyw newidiadau'n ddiogel, yn effeithiol ac yn gynaliadwy. Bydd y trefniadau amgen a fydd yn cael eu gwneud yn cynnal cefnogaeth hanfodol wrth annog y defnydd effeithlon o adnoddau.

**Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n hymagwedd at gyflwyno'r gwasanaethau hyn yn y dyfodol?**

- ◯ Cytuno'n gryf
- ◯ Tueddu i gytuno
- ◯ Tueddu i anghytuno
- ◯ Anghytuno'n gryf

**Os oes unrhyw sylwadau yr hoffech chi eu gwneud am ein hymagwedd at ddarparu ein gwasanaethau i blant a theuluoedd, nodwch nhw yma:**

## Gwasanaethau i Oedolion

Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb cyfreithiol i gefnogi oedolion sy'n agored i niwed, darparu gofal ar gyfer oedolion hŷn, cymorth iechyd meddwl a chymorth ar gyfer anableddau ac anghenion ychwanegol. Bob blwyddyn, mae'r gwasanaethau hyn yn helpu miloedd o bobl ac yn costio dros £170 miliwn i'r Cyngor.

Gyda galw'n cynyddu, anghenion mwy cymhleth a chwyddiant, mae costau'n cynyddu'n sylweddol. Er mwyn rheoli'r pwysau hwn, mae'r Cyngor yn cynnig newidiadau i Ofal Cymdeithasol i Oedolion gyda'r bwriad o leihau costau, annog annibyniaeth a blaenoriaethu cefnogaeth yn y gymuned. Er bod y newidiadau hyn yn ceisio cydbwyso cyfyngiadau ariannol ag anghenion preswylwyr, gallant arwain at lai o wasanaethau, mwy o gyfrifoldebau i deuluoedd a heriau i ddarparwyr gofal.

### Cynyddu Annibyniaeth

**Beth mae hyn yn ei olygu**: Bydd ffocws ar helpu pobl i fyw'n fwy annibynnol gartref drwy leihau'r angen am ofal preswyl drwy gryfhau gwasanaethau cymorth yn y gymuned i bobl hŷn, cymorth iechyd meddwl a chymorth i oedolion ag anableddau dysgu.

**Sut byddwn yn llwyddo i wneud hyn:** Bydd y Cyngor yn blaenoriaethu cefnogaeth i'r rheini â'r anghenion mwyaf, yn buddsoddi mewn gwasanaethau cymunedol ac yn gweithio'n agos â darparwyr gofal a theuluoedd i sicrhau bod trefniadau amgen yn ddiogel, yn effeithiol ac yn gynaliadwy.

**Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n hymagwedd at gyflwyno'r gwasanaethau hyn yn y dyfodol?**

○ Cytuno'n gryf ○ Tueddu i gytuno ○ Tueddu i anghytuno ○ Anghytuno'n gryf

**Os oes unrhyw sylwadau yr hoffech chi eu gwneud am ein hymagwedd at gynyddu annibyniaeth, nodwch nhw yma:**

## Cynyddu'r defnydd o Wasanaethau Mewnol

**Beth mae hyn yn ei olygu:** Mae hyn yn golygu dibynnu'n llai ar wasanaethau gofal cartref a phreswyl allanol costus drwy wneud gwell defnydd o'r gwasanaethau gofal y mae'r Cyngor yn eu darparu.

**Sut byddwn yn llwyddo i wneud hyn:** Bydd y Cyngor yn parhau i gefnogi'r rheini â'r anghenion mwyaf, yn blaenoriaethu ein gwasanaeth mewnol ac yn defnyddio'r gwasanaethau hyn cymaint â phosib, wrth sicrhau bod anghenion gofal a chefnogaeth yr unigolion yn cael eu diwallu'n effeithiol.

**Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n hymagwedd at gyflwyno'r gwasanaethau hyn yn y dyfodol?**

○ Cytuno'n gryf ○ Tueddu i gytuno ○ Tueddu i anghytuno ○ Anghytuno'n gryf

**Os oes unrhyw sylwadau yr hoffech chi eu gwneud am ein hymagwedd at gynyddu'r defnydd o'r ddarpariaeth gwasanaethau mewnol, nodwch nhw yma:**

## Ffïoedd a thaliadau'r Cyngor

Rydym yn codi tâl am nifer o wasanaethau i helpu i dalu am y gwasanaethau hyn ac i ariannu gwasanaethau eraill rydym yn eu darparu. Oherwydd yr argyfwng costau byw, mae'n rhaid i ni dalu miliynau o bunnoedd yn fwy am bethau fel nwy a thrydan. Mae chwyddiant wedi parhau'n uchel, sy'n golygu bod costau popeth rydym yn ei brynu ac yn ei ddefnyddio wedi cynyddu. Ar yr un pryd, mae Llywodraeth y DU wedi cytuno ar godiad cyflog cenedlaethol ar gyfer staff y Cyngor ac ysgolion heb ddarparu cyllid ar ei gyfer. I sicrhau ein bod ni'n gallu parhau i ddarparu ein gwasanaethau, mae angen i ni adolygu faint o dâl rydym yn ei godi ar eu cyfer.

Argymhellir bod y Cyngor yn parhau i fabwysiadu'r egwyddor o gynyddu ein taliadau'n unol â chostau chwyddiant cynyddol neu i sicrhau ein bod ni'n adennill holl gostau darparu ein gwasanaethau. .

**Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r egwyddorion arfaethedig:**

| | Cytuno'n gryf | Tueddu cytuno | Tueddu anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|
| Cynyddu ein ffïoedd a'n taliadau'n unol â chwyddiant | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Cynyddu ein ffïoedd a'n taliadau er mwyn adennill holl gostau darparu ein gwasanaethau | ○ | ○ | ○ | ○ |

**Oes unrhyw sylwadau yr hoffech chi eu gwneud am yr egwyddorion arfaethedig ynghylch cynyddu ffïoedd a thaliadau?**

## Sylwadau Eraill

**Os oes gennych unrhyw sylwadau am gynigion y gyllideb neu unrhyw beth arall sydd wedi'i gynnwys yn adroddiad cyllideb y Cabinet, ysgrifennwch yma:**

### Effaith ar y Gymraeg:

**Oes gennych chi unrhyw bryderon neu dystiolaeth sy'n awgrymu bod y Cyngor yn trin/defnyddio'r Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn perthynas â'i chyllideb arfaethedig ar gyfer 2024/25?**

**Os oes, rhowch fanylion a nodi sut bydd y gyllideb a awgrymir yn effeithio ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn eich barn chi?**

**Pa newidiadau y gellid eu gwneud er mwyn cael effaith fwy cadarnhaol ar y Gymraeg?**

## Amdanoch chi: Dysgu pwy sydd wedi cymryd rhan

Yn unol â chyfraith Diogelu Data, mae unrhyw wybodaeth y gofynnir amdani am y cwestiynau canlynol yn cael ei chadw yn hollol gyfrinachol at ddibenion dadansoddi data yn unig. I gael rhagor o wybodaeth am sut mae Cyngor Abertawe'n defnyddio eich data personol, ewch i'n hysbysiad preifatrwydd corfforaethol ar ein gwefan www.abertawe.gov.uk/hysbysiadpreifatrwydd

**Ydych chi'n...?**

- ◯ Gwryw
- ◯ Benyw
- ◯ Gwell gen i hunan-ddisgrifio (ysgrifennwch)
- ◯ Gell gennyf beidio â dweud

**Ydy'r rhywedd rydych chi'n uniaethu ag e yr un peth â'r hyn a ddynodwyd i chi ar eich genedigaeth?**

- ◯ Ydy
- ◯ Nac ydy
- ◯ Gwell gennyf beidio â dweud

**Faint yw eich oed...**

- ◯ O dan 16
- ◯ 16 - 25
- ◯ 26 - 35
- ◯ 36 - 45
- ◯ 46 - 55
- ◯ 56 - 65
- ◯ 66 - 75
- ◯ 76 - 85
- ◯ Dros 85
- ◯ Gwell gennyf beidio â dweud

**Sut byddech chi'n disgrifio eich hunaniaeth genedlaethol?**
**Nodwch y cyfan sy'n berthnasol**

- ☐ Prydeinig
- ☐ Cymreig
- ☐ Seisnig
- ☐ Gwyddelig
- ☐ Albanaidd
- ☐ Prydeinig arall (nodwch ar y diwedd)
- ☐ Ddim yn Brydeinig (nodwch ar y diwedd)
- ☐ Ffoadur/ceisiwr lloches (nodwch eich cenedligrwydd cyfredol/diwethaf ar y diwedd)
- ☐ Mae'n well gen i beidio â dweud

## Ysgrifennwch yma

**I ba grŵp 'ethnig' rydych chi'n barnu**

- ○ Gwyn - Cymreig, Seisnig, Albanaidd, Rhywun o Ogledd Iwerddon neu Brydeinig
- ○ Gwyn - Gwyddelig
- ○ Gwyn - Sipsiwn neu Deithiwr Gwyddelig
- ○ Gwyn - Roma
- ○ Unrhyw gefndir Gwyn arall (nodwch ar y diwedd)
- ○ Cymysg - Gwyn a Du Caribïaidd
- ○ Cymysg - Gwyn a Du Affricanaidd
- ○ Cymysg - Gwyn ac Asiaidd
- ○ Unrhyw gefndir Cymysg arall (nodwch ar y diwedd)
- ○ Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig - Indiaidd
- ○ Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig - Pacistani
- ○ Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig - Bangladeshi
- ○ Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig - Tsieineaidd
- ○ Unrhyw gefndir Asiaidd arall (nodwch ar y diwedd)
- ○ Du neu Ddu Prydeinig - Caribïaidd
- ○ Du neu Ddu Prydeinig - Affricanaidd
- ○ Unrhyw gefndir Du arall (nodwch ar y diwedd)
- ○ Arabaidd
- ○ Grŵp Ethnig arall (nodwch ar y diwedd)
- ○ Mae'n well gen i beidio â dweud

## Ysgrifennwch yma

**Beth yw eich crefydd?**
**Rhowch farc mewn un blwch neu ysgrifennwch ar y diwedd.**

- ○ Dim crefydd
- ○ Cristnogaeth (pob enwad)
- ○ Bwdhïaeth
- ○ Hindŵaeth
- ○ Iddewiaeth
- ○ Mwslim
- ○ Sikh
- ○ Arall
- ○ Gwell gennyf beidio â dweud

## Unrhyw grefydd neu gred athronyddol arall (nodwch)

**Beth yw eich cyfeiriadedd rhywiol**

- ○ Deurywiol
- ○ Hoyw/lesbiaidd
- ○ Gwahanrywiol
- ○ Mae'n well gen i beidio â dweud
- ○ Arall

## Nodwch

**Allwch chi ddeall, siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg?**
**Nodwch bob un sy'n berthnasol**

- ☐ Deall Cymraeg Llafar
- ☐ Siarad Cymraeg
- ☐ Darllen Cymraeg
- ☐ Ysgrifennu Cymraeg
- ☐ Dysgu Cymraeg
- ☐ Dim un o'r rhain
- ☐ Mae'n well gen i beidio â dweud

**Pa ieithoedd rydych chi'n eu defnyddio o ddydd i ddydd?**
**Nodwch bob un sy'n berthnasol**

- ☐ Saesneg
- ☐ Cymraeg
- ☐ Arall (ysgrifennwch eich ateb)
- ☐ Mae'n well gen i beidio â dweud

### Ysgrifennwch eich ateb

____________________

**Oes gennych unrhyw gyflyrau neu afiechydon meddwl neu gorfforol sy'n para 12 mis, neu y disgwylir iddynt bara am 12 mis neu fwy?**

- ◯ Oes
- ◯ Nac oes
- ◯ Byddai'n well gennyf beidio â dweud

**A yw unrhyw un o'ch cyflyrau neu'ch afiechydon yn cyfyngu ar eich gallu i ymgymryd â gweithgareddau o ddydd i ddydd?**

- ◯ Ydy
- ◯ Nac ydy
- ◯ Mae'n well gen i beidio â dweud

Diolch am eich cyfranogiad